# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-02-06

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 25 Ionawr 2006 |
| **Amser:** | 9.30 - 12.30 |
| **Lleoliad:** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd |
| **Teitl:** | Polisi’r UE a blaenoriaethau deddfwriaethol ar gyfer 2006 |

Materion Polisi a Materion Deddfwriaethol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer 2006

### Diben y Papur

1.Mae’r papur hwn yn gwahodd yr Aelodau i gytuno pa faterion polisi a materion deddfwriaethol gan yr UE y dylai’r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio eu gwneud yn flaenoriaeth ac yn ffocws yn ei flaen-raglen waith ar gyfer 2006. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (WAG) wedi darparu crynodeb o Raglen Waith a Deddfwriaeth 2006 y Comisiwn Ewropeaidd (‘Rhaglen Waith’ o hyn ymlaen) a goblygiadau honno i Lywodraeth Cynulliad Cymru – gweler darn yn Atodiad A.

### Cefndir

2. Mae’r Pwyllgor hwn wedi’i wahodd i ddewis blaenoriaethau allan o Flaenraglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y flwyddyn sy’n dod. Estynnir gwahoddiad tebyg i bob un o’r Pwyllgorau Pwnc, y Pwyllgor Cyfle Cyfartal a’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, gyda’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn cadw trosolwg strategol ar y broses.

3. Cyhoeddwyd Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar 25 Hydref 2005. Mae hi’n rhestru pob blaenoriaeth a gynigir gan y Comisiwn yn 2006, o dan bedair nod allweddol y Comisiwn: ffyniant, cydlyniad, diogelwch ac Ewrop fel partner yn y byd. Cyhoeddir hefyd gan y Comisiwn restr arall o eitemau nad ydynt yn flaenoriaeth – a gall amryw o’r rhain fod o ddiddordeb i’r Pwyllgorau. Gellir cael hyd i’r dogfennau hyn ar wefan y Comisiwn:

http://www.europa.eu.int/comm/atwork/programmes/index_en.htm

4. Rhoddir crynodeb o’r rhaglen yn natganiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y Rhaglen Waith yn Atodiad A a gyflwynwyd i’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol (18 Ionawr). Roedd hyn yn cynnwys dadansoddiad o oblygiadau’r rhaglen waith i Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn ôl y meysydd pwnc – dim ond y darn sy’n ymwneud â materion iechyd a chymdeithasol sydd wedi ei gynnwys yn yr Atodiad.

## Blaenoriaethau a awgrymir ar gyfer 2006

5. Mae Gwasanaethau Ymchwil a Phwyllgor yr Aelodau wedi archwilio’r rhaglen waith i ganfod eitemau sydd yn berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn. Ar sail blaenoriaethau gwleidyddol y Comisiwn yn 2006 y seilir y rhain yn bennaf ac fe’u cynigir oherwydd eu heffaith ar Gymru a’u perthnasedd iddi, a chan ystyried diddordebau’r Pwyllgor hwn yn y gorffennol. Yn Atodiad B gwelir rhan o raglen waith yr UE sydd yn manylu ar yr eitemau hyn. Nodwyd hefyd faterion a ddygir ymlaen o 2005 ac a glustnodir yn flaenoriaeth i’r Pwyllgor.

Atodir y protocol ar gyfer ymdrin â materion yr UE, fel y’i cytunwyd gan Banel y Cadeiryddion, yn Atodiad C.

Y canlynol felly yw’r awgrymiadau ar gyfer blaenoriaethau’r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn 2006:

## Hawliau’r Plentyn

Cyfathrebiad ar Hawliau’r Plentyn: bwriad hwn yw gosod fframwaith ar gyfer gweithredu hawliau plant yng nghyd-destun Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn.

Polisi Cyffuriau

Papur Gwyrdd ar gyffuriau a chymdeithas sifil: rhydd hyn fframwaith ar gyfer gweithio â chymdeithas sifil i gymryd camau i roi Cynllun Gweithredu yr UE ar Gyffuriau 2005-2008 ar waith. Awgrymwyd y Cynllun Gweithredu ar Gyffuriau fel un o’r blaenoriaethau ar gyfer ei drafod gan y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn 2005.

## Niwed yn sgil Alcohol

Cyfathrebiad y Comisiwn ar bolisi alcohol: y nod yw lleihau’r effeithiau ar iechyd ac ar gymdeithas a ddaw yn sgil yfed alcohol.

## Gwasanaethau Post

Cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb ar farchnad fewnol ar gyfer gwasanaethau post. Byddai hyn yn hyrwyddo ymhellach greu marchnad fewnol i'r post (h.y.agor y monopolïau post sydd yn weddill i gystadleuaeth) tua'r dyddiad targed sef 2009, a allai gael effaith ar ardaloedd gwledig yn arbennig.

## Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor

Gwahoddir y Pwyllgor i drafod a chytuno'i flaenoriaethau o raglen waith y Comisiwn ar gyfer 2006, fel yr awgrymwyd ym mharagraffau 5-7, gan ystyried Datganiad Llywodraeth y Cynulliad a geir yn papur EUR(2) 01-06 (p5).

**Janice Gregory**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**